Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Padarn Sant
Llanbadarn Road
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 1EZ

24/10/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Hydref 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gatholig Padarn Sant yn ddiweddar i ystyried cynnydd o ran dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Achubodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennau, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Datblygu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddatblygu eu hysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm

- Mae'r pennaeth, mewn cydweithrediad â staff, wedi rhoi strategaeth glir a chydlynus ar waith i ddatblygu ysgrifennu disgyblion ar draws y cwricwlwm. Ategir hyn yn effeithiol gan gynlluniau gwaith strwythuredig sy'n amlinellu disgwyliadau clir ar gyfer pryd, sut ac at ba ddiben y mae disgyblion yn creu darnau ysgrifennu estynedig.
- Mae staff yn ymgymryd â chyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr sy'n datblygu eu dealltwriaeth o addysgeg ysgrifennu effeithiol ac yn cefnogi cynllunio defnyddiol ar gyfer dilyniant ym medrau ysgrifennu disgyblion ar draws pob maes dysgu.
- Mae staff wedi cryfhau eu dealltwriaeth o'r elfennau allweddol sy'n cyfrannu at wella medrau ysgrifennu disgyblion. Wrth gynllunio gweithgareddau ysgrifennu estynedig, maent yn rhoi ystyriaeth ofalus i sicrhau ehangder a dyfnder priodol tasgau i hyrwyddo dilyniant cadarn ym medrau disgyblion.
- Mae staff yn darparu adborth pwrpasol sy'n cynorthwyo disgyblion yn effeithiol i wella ansawdd eu hysgrifennu. Maent yn annog disgyblion i olygu a mireinio'u

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

gwaith yn llwyddiannus, ac mae disgyblion hŷn yn dechrau ymateb yn gadarnhaol i'r arweiniad hwn.
- Mae disgyblion hŷn yn cymhwyso'u dealltwriaeth o wahanol ffurfiau ysgrifennu yn effeithiol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i greu darnau ysgrifennu estynedig sy'n ddifyr, yn addysgiadol ac yn gweddu'n dda i'w diben a'u cynulleidfa.

## Darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut

- Yn gyffredinol, mae staff yn darparu cyfleoedd wedi'u cynllunio'n dda i ddisgyblion hŷn ddatblygu eu medrau dysgu'n annibynnol yn bwrpasol.
- Pan gaiff disgyblion hŷn eu herio'n briodol ac yn cael cyfleoedd ystyrlon i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu, maent yn dangos uchelgais, gwydnwch a dyfalbarhad i gwblhau gweithgareddau dysgu yn effeithiol.
- Ar draws yr ysgol, mae staff yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut, trwy gyfrannu syniadau ac awgrymu gweithgareddau dysgu posibl o fewn gwaith thematig. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i ddangos chwilfrydedd a chael ymdeimlad o berchnogaeth o'u dysgu.
- Mae arweinwyr a staff yn defnyddio mannau dysgu yn effeithiol i ddarparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso a mireinio'u medrau yn annibynnol mewn ystod o gyd-destunau dilys. Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn dangos annibyniaeth gynyddol wrth benderfynu sut i fynd i'r afael â thasgau a dewis yr adnoddau priodol sydd eu hangen i gefnogi eu dysgu.
- Yn ystod sesiynau gwerthfawr 'Awr Athrylith' ('Genius Hour'), mae disgyblion hŷn yn ymgymryd yn ystyriol â chynllunio'u gwaith, yn trafod syniadau, yn datrys problemau, ac yn dewis ffyrdd priodol i gyflwyno'u dysgu. Caiff y dull hwn effaith gadarnhaol ar allu disgyblion hŷn i feddwl yn greadigol a gweithio ag annibyniaeth gynyddol.
- Mae arweinwyr a staff yn monitro annibyniaeth disgyblion yn ofalus ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fuddiol i lywio'r cynllunio. O bryd i'w gilydd, mae gor-ddibyniaeth ar daflenni gwaith yn cyfyngu ar lefel yr her a'r ffyrdd y gall disgyblion ar draws yr ysgol ddangos eu dysgu.
- Mae arweinwyr a staff yn cymryd camau priodol i gryfhau annibyniaeth, creadigrwydd a dyfnder meddwl disgyblion ymhellach, tra'n sicrhau cysondeb gwell mewn arfer effeithiol ar draws yr ysgol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/ysgol-padarn-sant-cy/

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol